

Bywydau Digidol

Cynhadledd Flynyddol 2026 Anabledd Dysgu Cymru




Learning Disability Wales

Anabledd Dysgu Cymru

Arddangos

Dydd Mercher 4 Tachwedd – Cyffordd Llandudno, Gogledd Cymru

Dydd Mercher 11 Tachwedd – Abertawe, De Cymru



Am ein cynhadledd flynyddol



Nid yw cynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru yn debyg i gynadleddau eraill. Mae'n sefyll allan o'r dorf fel enghraifft o gynhwysiant a hygyrchedd. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein digwyddiad yn gyfeillgar ac yn groesawgar i bawb, p'un a oes gennych anabledd dysgu ai peidio.

Mae llawer o'n siaradwyr ac arweinwyr gweithdai yn arbenigwyr yn ôl eu profiadau eu hunain o gael anabledd dysgu, rydym yn credu bod pawb yn elwa o gymryd y dull hwn. Bob blwyddyn mae'r gynhadledd yn dwyn ynghyd bobl ag anabledd dysgu a gweithwyr proffesiynol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn awdurdodau lleol, darparwyr cymorth, mudiadau gwirfoddol, a chomisiynwyr.

Bydd Digital Lives yn archwilio sut y gall offer digidol o apiau bob dydd AI rymuso pobl ag anabledd dysgu i gael mwy o ddewis, llais a rheolaeth yn eu bywydau. Bydd y gynhadledd yn tynnu sylw at yr heriau, megis allgáu digidol a hygyrchedd, a'r cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu, cymorth personol, a mwy o annibyniaeth. **Gallwch fod yn rhan o'r digwyddiad unigryw hwn.**

Sut gallwch chi elwa



Mae cefnogi ein cynhadledd drwy arddangos yn rhoi cyfle i chi gyrraedd a dylanwadu ar bobl a sefydliadau yn y gymuned anabledd dysgu yng Nghymru, gall hefyd eich helpu i:

- Cynyddu gwelededd eich sefydliad
- Targedu sefydliadau yn y maes hwn mewn ffordd gost-effeithiol
- Dod o hyd i gleientiaid, partneriaid, a chwsmeriaid newydd
- Cynyddu eich cyfran o'r farchnad di-elw
- Meithrin perthynas â mudiadau eraill yn y sector gwirfoddol
- Dangos eich ymrwymiad i sector di-elw cryf

Costau Arddangos

£416.67 + TAW y dydd – Safonol

£266.67 + TAW y dydd – Consesiwn

Fel arddangoswr yn y digwyddiad, fe gewch:

- Gofod arddangos mewn prif leoliad
- 2 le i staff yn eich stondin arddangosfa sy'n gallu mynychu'r gynhadledd fel cynrychiolwyr llawn neu'r cyfle i roi'r lleoedd i eraill
- Eich logo a manylion sefydliad i ymddangos o fewn llawlyfr y Gynhadledd
- Cyfle i arddangos eich baner dros dro yn y dderbynfa ddigwyddiadau
- Tabl 6 troedfedd wedi'i ddarparu
- WiFi a chyflenwad trydan ar gael
- Cinio a lluniaeth yn gynwysiedig

Bydd y cynrychiolwyr yn gallu ymweld â'ch stondin yn ystod y cyfnod cofrestru, egwyl yn y bore a'r prynhawn yn ogystal â thros ginio. Byddwn yn sicrhau bod pawb yn gwybod cymaint yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth drwy gydnabod eich sefydliad fel arddangoswr mewn unrhyw sylw yn y wasg a gan gadeirydd y digwyddiad yn ystod y digwyddiad.

Gallwch fod yn sicr ein bod yn gallu cynnig y prisiau isaf posibl i bobl sydd ag anabledd dysgu fynychu'r gynhadledd hon trwy arddangos.

Cysylltu â ni

I drefnu eich hysbysebion, cysylltwch â Lucy O'Leary ar:

Ffôn: 029 2068 1163

Ebost: lucy.oleary@ldw.org.uk

Anabledd Dysgu Cymru
41 Cilgant Lambourne
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GG

www.ldw.org.uk